NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Meddalwedd sy'n deillio o ddeallusrwydd artiffisial i helpu i wneud penderfyniadau clinigol adeg strôc

23 Ionawr 2024

Mae NICE wedi dweud y gellir defnyddio 3 darn o feddalwedd sy'n deillio o ddeallusrwydd artiffisial i helpu i adolygu ac adrodd ar sganiau CT ar yr ymennydd i bobl yr amheuir eu bod wedi cael strôc. Gelwir y technolegau hyn yn e-Stroke, RapidAI a Viz.

Bydd y sganiau CT hefyd yn cael eu hadolygu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol bob amser.

Mae angen rhagor o ymchwil ar 10 darn o feddalwedd sy'n deillio o ddeallusrwydd artiffisial a ddefnyddir i helpu i adolygu ac adrodd ar sganiau CT ar yr ymennydd i bobl yr amheuir eu bod wedi cael strôc. Gelwir y meddyginiaethau hyn yn:

- Accipio
- Aidoc
- BioMind
- BrainScan CT
- Cercare
- CINA Head
- CT Perfusion 4D
- icobrain ct
- Neuro Solution
- qER.

Lle mae amheuaeth bod rhywun wedi cael strôc, gwneir sgan CT ar yr ymennydd i ddarganfod a yw'r strôc yn isgemig (math o strôc sy'n digwydd pan fydd clot gwaed yn rhwystro llif y gwaed a'r ocsigen i'r ymennydd). Gall sgan CT hefyd helpu i benderfynu pa driniaeth i'w defnyddio. Gall

meddyginiaeth ‘chwalu clotiau’ dorri'r clotiau i fyny (thrombolysis) neu gellir eu codi gyda llawdriniaeth (thrombectomi).

Gall meddalwedd sy'n defnyddio algorithmau sy'n deillio o ddeallusrwydd artiffisial ddadansoddi lluniau o sganiau CT yr ymennydd er mwyn canfod newidiadau ac annormaleddau yn yr ymennydd. Yna, mae'n rhoi gwybod am y canfyddiadau hyn ac mae gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn adolygu'r sganiau a'r canlyniadau. Gallai defnyddio'r feddalwedd hon helpu i adolygu sganiau yn gynt a rhoi mynediad cynt i'r driniaeth i bobl. Mae'r technolegau'n galluogi ar gyfer trosglwyddo lluniau i wahanol ganolfannau strôc. Mae hyn yn golygu y gall canolfannau strôc gyda mwy o arbenigedd helpu i wneud penderfyniadau am ofal, gan arwain at ganlyniadau gwell i gleifion.

### A yw'r dull diagnosio hwn yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda mae'n gweithio o gymharu â dulliau eraill o adolygu sganiau?
- Beth yw'r risgiau? Pa mor debygol ydynt?
- Faint fydd y prawf yn ei gymryd?
- Sut y byddaf yn cael canlyniadau'r prawf? A fydd apwyntiad dilynol?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall gwefan y GIG ar strôc fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y Gymdeithas Strôc, 0300 3300 740, roi cyngor a chymorth i chi:

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

NICE National Institute for Health and Care Excellence

© **NICE 2025**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-7431-3